Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pant-y-Rhedyn
# Ffordd Penmaenmawr
# Llanfairfechan
# Conwy
# LL33 0AA

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf yw Ysgol Pant y Rhedyn, a gwneir defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Llanfairfechan ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol hon o'r ysgol fabanod sydd wedi'i lleoli yn y pentref. Mae 128 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan ryw 21% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn pum dosbarth oedran cymysg.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 38% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan rai disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 94% o ddisgyblion o darddiad ethnig gwyn Prydeinig. Mae tua 10% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Cafwyd tri gwaharddiad cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn cyn yr arolygiad. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2008. Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym Medi 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pant y Rhedyn yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,006 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,575 a'r isafswm yw £3,230. Mae Ysgol Pant y Rhedyn yn safle 36 allan o'r 58 ysgol gynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da ac mae bron pob disgybl yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn frwdfrydig i ddysgu; ac
- mae presenoldeb yn dda ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau rhifedd yn effeithiol ac yn gyson ar draws y pynciau ym mhob dosbarth;
- nid yw medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u datblygu ddigon; ac
- nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion o wahanol allu yn briodol ac nid yw addysgu bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae gan yr ysgol strwythur staffio addas ar waith ac mae cyfrifoldebau arwain yn glir;
- mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn defnyddio ystod briodol o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi yn rheolaidd; ac
- mae ymrwymiad cryf i weithio gydag ystod o bartneriaid, ac mae'r ysgol yn elwa ar gysylltiadau helaeth gydag ysgolion eraill.

Fodd bynnag:

- nid oes gan uwch arweinwyr ddarlun cywir o safonau disgyblion ar draws yr ysgol a pha mor dda y mae'r ysgol yn perfformio;
- nid yw blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn cynnwys agweddau pwysig y mae angen eu gwella; ac
- nid yw llywodraethwyr yn ddigon ymwybodol o berfformiad yr ysgol ar hyn o bryd i'w galluogi i weithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau rhifedd ac ysgrifennu disgyblion a'u datblygu yn fwy effeithiol ar draws y cwricwlwm

A2 Codi safonau mewn Cymraeg

A3 Sicrhau bod cynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn cael eu rhoi ar waith yn gyson

A4 Sicrhau bod athrawon yn herio disgyblion ar bob lefel ac yn galluogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol

A5 Sicrhau bod marcio ac adborth yn gyson ac yn effeithiol fel bod disgyblion yn gwybod sut i wella'u gwaith

A6 Cynyddu trylwyredd y prosesau hunanarfarnu i sicrhau bod uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn nodi meysydd y mae angen eu datblygu yn glir, ac yn mynd i'r afael â nhw yn drylwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da ac mae bron pob disgybl yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i'w gilydd ac i'r athro. Mae rhai disgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa gyfoethog ac estynedig i fynegi eu barn a'u syniadau.

Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ystod o lyfrau ac maent yn darllen gyda hyder a chywirdeb yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae rhai disgyblion mwy abl yn trafod ac yn mynegi barn am lyfrau a hoff awduron yn ddeallus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen a deall da a gallant adalw gwybodaeth o wahanol ffynonellau gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio'u medrau darllen yn llwyddiannus i ymchwilio i destunau, er enghraifft yr Ail Ryfel Byd.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu fel cofiannau a llythyrau. Fodd bynnag, mae swm ac ehangder eu gwaith ysgrifenedig yn rhy gyfyngedig. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o genres ac ar draws pynciau'r cwricwlwm. Mae anghysondeb rhwng gwahanol ddosbarthiadau. At ei gilydd, mae ansawdd sillafu, atalnodi a chyflwyniad yng ngwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae'r ffocws ysgol gyfan yn ddiweddar ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn cael effaith ar safonau.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau rhif. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofnodi canlyniadau yn glir ac yn effeithiol mewn graffiau bar a llinell, ac mae mwyafrif ohonynt yn cyfrif cyfartaledd o fewn canlyniadau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau rhifedd yn effeithiol ac yn gyson ar draws y pynciau ym mhob dosbarth.

Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu Cymraeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn frwdfrydig i ystod o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u datblygu ddigon. Prin yw'r disgyblion sy'n gallu cynnal sgyrsiau sylfaenol. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn hyderus ac mae eu geirfa yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ymadroddion a phatrymau syml yn eu hysgrifennu, er bod eu cynnydd yn gyfyngedig. Mae medrau darllen disgyblion wedi'u datblygu'n dda ac mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni safonau priodol, ond nid yw lleiafrif ohonynt yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau dysgu unigol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn gwyddoniaeth a mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% is yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Saesneg, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio, gan osod yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2013, fe wnaeth perfformiad ym mhob un o'r pynciau craidd osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg fel mamiaith wedi dirywio, gan ei symud o'r 25% uchaf i'r 25% isaf yn 2013. Ar y lefel 5 uwch, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg, wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn gyffredinol.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd dda tuag at fwyta ac yfed yn iach ac maent yn gwybod beth i'w wneud er mwyn cadw'n heini. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o effeithiau cadarnhaol ymarfer corff.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y bydd oedolion yn gwrando arnynt ac yn ymateb i'w hanghenion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau da o ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd.

Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n galed ac mae'n dylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan yr ysgol. Enghraifft o hyn yw eu cyfraniad at gylchlythyr yr ysgol a siop ffrwythau'r ysgol. Maent wedi cael effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad ar y maes chwarae trwy'r system cyfeillion a 'Ffrindiau'r Wythnos'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi, maent yn frwdfrydig i ddysgu ac yn ymateb yn briodol i'w tasgau. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn dibynnu'n ormodol ar arweiniad gan oedolion mewn gwersi, ac o ganlyniad, nid ydynt wedi datblygu digon o hyder wrth wneud dewisiadau am eu dysgu eu hunain.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, profiadau allgyrsiol a chymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau crefyddol yn y pentref, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn dda ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau cwricwlwm addas ar waith sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae rhai profiadau dysgu ar draws y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn anghyson ac nid ydynt bob amser yn amlwg yng ngwaith disgyblion.

Mae cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm, ond nid yw disgyblion mwy abl yn cael digon o her bob amser. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau TGCh a medrau meddwl, ond nid oes digon o gyfleoedd bob amser i ddatblygu medrau ysgrifennu a rhifedd estynedig yn gyson.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol sy'n gwella dysgu disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth eang trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleiafrif o bynciau. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad a gwrando mewn ffordd raddol.

Mae'r ysgol yn effeithiol wrth addysgu disgyblion i weithredu'n gynaliadwy. Mae gan y pwyllgor Eco rôl weithredol mewn hyrwyddo ailgylchu a chadwraeth. Mae'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang yn dda, ac mae cysylltiadau ag ysgolion yn Zambia a Ffrainc yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o amrywiaeth a pharch at ddiwylliannau a chenedligrwydd gwahanol.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynllunio gwersi yn ofalus ac yn gosod tasgau diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes ac maent yn helpu disgyblion i adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae pob aelod o staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda.

Pan mae'r addysgu ar ei orau, mae'r wers yn symud yn dda ac mae athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn annog atebion estynedig gan ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, nid yw tasgau yn herio disgyblion o wahanol alluoedd bob amser. Ar draws yr ysgol, nid yw'r addysgu bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae mwyafrif ohonynt yn gwneud sylwadau adeiladol ac, yn gyffredinol, yn darparu targedau i helpu disgyblion i wella'u gwaith. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau a gwella'u gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn briodol, ond nid yw'r agwedd hon ar eu gwaith yn gyson ar draws yr ysgol.

Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn dda ac mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar wella’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y cymorth a gânt. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion ac yn cofnodi eu hasesiadau yn rheolaidd ar gronfa ddata electronig. Mae gweithdrefnau gosod targedau yn dechrau galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth well o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith.

Mae’r ysgol yn rhoi adroddiadau ysgrifenedig addysgiadol i rieni a gofalwyr ac yn rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt drafod cyflawniadau a chynnydd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae systemau gwobrwyo effeithiol ar waith sy’n hyrwyddo ymddygiad da a defnyddio’r iaith Gymraeg. Mae’r ysgol wedi sefydlu grŵp anogaeth yn ddiweddar sydd eisoes yn cael effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad disgyblion a’u hagweddau at yr ysgol.

Mae aelodau o staff yn gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol er mwyn cefnogi disgyblion yn ôl yr angen. Mae pob aelod o staff yn cyfathrebu’n dda â’i gilydd, gyda rhieni a gwasanaethau arbenigol i sicrhau eu bod yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Mae’r ysgol yn creu cynlluniau addysg unigol manwl ar gyfer pob disgybl ag anghenion ychwanegol. Mae staff, rhieni a disgyblion yn adolygu’r cynlluniau yn rheolaidd ac fe gaiff staff a disgyblion eu cefnogi’n effeithiol trwy ddefnyddio ystod o strategaethau ymyrraeth a gwaith mewn grwpiau bach.

Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus ac mae’n hyrwyddo ethos cefnogol. Caiff pob plentyn ei annog i gyflawni ei botensial ac mae’r ysgol yn cydnabod ac yn dathlu’r cyfraniadau a wna’r disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae’r awyrgylch cyfeillgar rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau dysgu, gan gynnwys cyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol, sy’n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol.

Mae awyrgylch eang a phleserus yn adeilad yr ysgol, a cheir murluniau ar y coridor ac arddangosiadau o waith y plant. Mae’r adeilad yn lân ac yn cael ei gynnal mewn cyflwr priodol.

Mae ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau hawliau a chyfle cyfartal, ac mae’r ysgol yn hyrwyddo parch tuag at amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol yn effeithiol trwy ei gwaith thematig.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae strwythur staffio addas ar waith. Mae'r pennaeth wedi dyrannu rolau a chyfrifoldebau arwain yn briodol a deellir y rhain yn glir. Mae cydlynwyr pwnc yn cyfrannu'n ddefnyddiol at drefniadau'r ysgol ar gyfer monitro darpariaeth mewn meysydd pwnc.

Mae gan yr ysgol nifer addas o flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwella agweddau ar lythrennedd a defnydd disgyblion o dechnoleg gwybodaeth. Ceir ymrwymiad clir i weithio gydag ysgolion eraill i rannu mentrau newydd. Nid yw'r ysgol yn defnyddio dull digon strategol eto i fynd i'r afael â meysydd pwysig eraill y mae angen eu gwella, gan gynnwys cyflawniadau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a chodi safonau mewn ysgrifennu ac mewn Cymraeg. Mae arweinwyr yr ysgol wedi cyflwyno nifer o fentrau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau ar ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb yn parhau mewn addysgu ac asesu ac mewn cynnydd disgyblion mewn gwersi.

Cynhelir cyfarfodydd staff ffurfiol yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd defnyddiol ar gyfer rhannu canfyddiadau arsylwadau a chraffu ar lyfrau. Mae uwch reolwyr yn llunio adroddiadau cryno manwl ar ddata perfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw uwch reolwyr yn defnyddio data perfformiad yn ddigon da i nodi tanberfformio a chynllunio'n strategol ar gyfer gwella. Nid yw staff yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio ar hyn o bryd.

Mae aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys gwirfoddoli i gefnogi ac ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth i arsylwi addysgu a dysgu. Mae llywodraethwyr yn cael adroddiadau manwl ar ddata perfformiad yr ysgol ac maent yn cael gwybodaeth sy'n deillio o graffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi, sy'n ddefnyddiol. Maent wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau pwysig ynghylch gwariant ac mewn penodiadau staff. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio. O ganlyniad, nid ydynt yn herio'r ysgol yn ddigonol mewn perthynas â meysydd lle ceir tanberfformio.

## Gwella ansawdd: Digonol

Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ffynonellau tystiolaeth ac mae canfyddiadau hunanarfarnu yn cysylltu'n briodol â chynllunio gwelliant.

Mae arweinwyr cwricwlwm yn creu adroddiadau crynodol defnyddiol ar ddarpariaeth mewn pynciau ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cynnal arsylwadau gwersi ym mhob dosbarth yn rheolaidd. Mae cofnodion ffurfiol o arsylwadau yn arfarnol a rhoddir cyfleoedd priodol i staff drafod y canfyddiadau. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar gynnydd disgyblion ac nid ydynt yn

crynhoi'r prif feysydd y mae angen eu gwella yn ddigon clir.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o holiaduron i gasglu safbwyntiau disgyblion a rhieni yn rheolaidd.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn fanwl ac yn ymdrin ag ystod eang o agweddau.  Mae'n cynnwys crynodeb o brif bwyntiau sy'n codi o arsylwadau gwersi, sy'n ddefnyddiol, ac mae'n nodi meysydd y mae angen eu gwella.  Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol mewn mannau ac nid yw'n rhoi darlun digon cywir o gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau addas ac mae'n gwneud defnydd priodol o ganfyddiadau monitro ac arfarnu.  Mae'n nodi ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac mae'n nodi unigolion sydd â chyfrifoldebau arwain.  Er bod y cynllun yn cynnwys graddfeydd amser, ni roddir blaenoriaeth ddigonol i gynigion ac nid oes meini prawf llwyddiant mesuradwy i fonitro cwblhau ac effaith.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni, gan ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys gwefan newydd yr ysgol a chyfryngau cymdeithasol.  Mae'n rhoi cyfleoedd priodol i rieni rannu eu safbwyntiau a chodi pryderon.  Mae nifer o rieni yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer darllen.  Mae'r ysgol wedi trefnu gweithdai defnyddiol i rieni ar sut i gefnogi lles eu plant a defnyddio technoleg llechen, er mai nifer fach o rieni yn unig sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn.

Mae trefniadau bugeiliol addas ar waith i gefnogi trosglwyddo disgyblion yn ddidrafferth o'r ysgol fabanod bartner, a throsglwyddo disgyblion sy'n symud ymlaen i addysg uwchradd hefyd.  Caiff gwybodaeth ei chyfnewid yn effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol fabanod.  Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yr un mor effeithiol o ran datblygu cysylltiadau cwricwlaidd i sicrhau parhad a dilyniant mewn profiadau dysgu a dulliau addysgu.  Mae wedi cymryd rhan yn llwyddiannus gydag ysgolion partner lleol mewn cymedroli a safoni asesiadau athrawon ar y cyd mewn Cymraeg ail iaith ac yn y pynciau craidd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n helaeth gydag ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth mewn perthynas â lles disgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.  Mae ymglymiad presennol y fenter iaith leol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio yn ystod amser cinio sy'n hyrwyddo'u defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu yn briodol ac mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran darparu cymorth effeithiol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion.  Nid yw aelodau o staff sydd â chyfrifoldebau rheoli yn cyfrannu ddigon at arsylwadau gwersi ar hyn o bryd.

Mae pob un o’r staff yn cymryd rhan yn adolygiadau rheoli perfformiad blynyddol yr ysgol, sy’n arwain at nifer addas o amcanion datblygu sy’n cysylltu’n briodol â blaenoriaethau cynllun datblygu’r ysgol.

Mae’r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau helaeth gyda nifer o ysgolion eraill i elwa ar fentrau. Mae hyn yn cynnwys ymweld ag ysgolion eraill yn yr un teulu. Nid yw athrawon yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu dulliau a’u methodoleg addysgu trwy arsylwi arfer dda mewn addysgu a dysgu yn fewnol neu mewn ysgolion eraill.

Mae’r ysgol wedi cymryd camau priodol i fynd i’r afael â’r tanwariant sylweddol o ran y gyllideb mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae rhagamcaniadau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn dangos y bydd gan yr ysgol arian wrth gefn sy’n parhau i fod gryn dipyn yn uwch na chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grant amddifadedd disgyblion Llywodraeth Cymru i roi cymorth i ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim.

Mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Saesneg, neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd, islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Yn 2013, roedd perfformiad disgyblion ym mhob un o'r pynciau craidd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ar gyfer Saesneg a mathemateg. O gymharu â pherfformiad yr holl ysgolion yng Nghymru, mae canlyniadau'r ysgol ychydig uwchlaw'r cyfartaledd mewn Saesneg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn gwyddoniaeth a mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% is yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Saesneg, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio, gan osod yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2013, yn sgil perfformiad ym mhob un o'r pynciau craidd, gosodwyd yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg mamiaith wedi dirywio, gan symud yr ysgol o'r 25% uchaf i'r 25% isaf. Ar y lefel 5 uwch, mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio, o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, gan osod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% uchaf.

Dros gyfnod, nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cyfoedion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf, mae merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn mewn mathemateg a Saesneg.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 107 | 107<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 107 | 105<br>98%<br>92% | 2<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 107 | 106<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 107 | 107<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 107 | 104<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 107 | 101<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 107 | 107<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 107 | 106<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 107 | 100<br>93%<br>91% | 7<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 107 | 106<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 107 | 81<br>76%<br>77% | 26<br>24%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 107 | 85<br>79%<br>84% | 22<br>21%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 62 | 21<br>34% | 38<br>61% | 3<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 62 | 31<br>50% | 29<br>47% | 2<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 62 | 28<br>45% | 30<br>48% | 4<br>6% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 62 | 23<br>37% | 35<br>56% | 3<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 59 | 12<br>20% | 34<br>58% | 3<br>5% | 1<br>2% | 9 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 62 | 23<br>37% | 36<br>58% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 61 | 28<br>46% | 33<br>54% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 61 | 19<br>31% | 35<br>57% | 5<br>8% | 0<br>0% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 60 | 23<br>38% | 30<br>50% | 4<br>7% | 0<br>0% | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 62 | 24<br>39% | 31<br>50% | 4<br>6% | 1<br>2% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 62 | 28<br>45% | 33<br>53% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 60 | 26<br>43% | 27<br>45% | 3<br>5% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 60 | 20<br>33%<br>49% | 31<br>52%<br>41% | 7<br>12%<br>8% | 1<br>2%<br>2% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 62 | 35<br>56%<br>62% | 23<br>37%<br>31% | 4<br>6%<br>4% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 59 | 15<br>25%<br>44% | 37<br>63%<br>39% | 2<br>3%<br>7% | 0<br>0%<br>2% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 60 | 22<br>37%<br>55% | 34<br>57%<br>39% | 3<br>5%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 60 | 17<br>28%<br>42% | 26<br>43%<br>34% | 2<br>3%<br>4% | 2<br>3%<br>1% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 60 | 20<br>33%<br>53% | 36<br>60%<br>38% | 4<br>7%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 60 | 26<br>43%<br>60% | 29<br>48%<br>33% | 1<br>2%<br>3% | 2<br>3%<br>2% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Margaret Watkins | Arolygydd Lleyg |
| Robert Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Matthew Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.